# Rhywbeth wedi amharu ar eich astudiaethau?

Os ydych chi'n teimlo bod amgylchiadau esgusodol wedi effeithio ar eich astudiaethau, mae'n bwysig eich bod chi'n:

- Gofyn am gyngor gan eich Tiwtor Personol a/neu aelodau eraill o staff yn Swyddfa Wybodaeth eich Cyfadran neu'ch Ysgol.
- Llenwi a chyflwyno'r ffurflen ofynnol a'r dystiolaeth berthnasol, yn unol â'r cyfarwyddiadau isod.

Gweler y Polisi ar Amgylchiadau Esgusodol am ragor o wybodaeth.

Efallai hefyd y dewch o hyd i'r ateb yr ydych yn chwilio amdano yn y Cwestiynau Cyffredin am Amgylchiadau Esgusodol.

## Estyniad Gwaith Cwrs

**Problem:** Ni allaf gyflwyno fy ngwaith cwrs ar amser

**Gweithredu:** Cwblhewch gais am amgylchiadau esgusodol, gan ddisgrifio eich Amgylchiadau Esgusodol, ac atodi tystiolaeth

**Dyddiad cau:** Dyddiad cau ar gyfer cais amgylchiadau esgusodol a osodwyd gan eich Cyfadran neu'ch Ysgol.

Canlyniadau Posibl:

- Derbynnir y cais - Estynnir y dyddiad cau
- Gwrthodir y cais - Cyflwyno ar amser.
- Gwrthodir y cais - Cyflwyno'n hwyr.
- Mae'n bosib y bydd opsiynau eraill ar gael i'w pennu gan eich Cyfadran/ Ysgol

## Gohirio Arholiad

**Problem:** Ni allaf fod yn bresennol yn fy arholiad.

**Gweithredu:** Llenwch ffurflen Cais am Ohirio Arholiad(au), sydd ar gael gan Swyddfa Wybodaeth eich Cyfadran neu'ch Ysgol, ac atodi tystiolaeth.

**Dyddiad cau:** Cyflwynwch o fewn 5 diwrnod gwaith i ddyddiad yr arholiad

Canlyniadau Posibl:

- Derbynnir y cais – ni chaiff y marc ei gapio oni bai fod yr arholiad a ohiriwyd eisoes yn ail gyfle felly caiff y marc ei gapio ar 50%.
- Gwrthodir y cais.

